SGWAD SAFIO DYLAN
DYLAN'S SAVING SQUAD

## Adnoddau Sgwad Safio Dylan

# Prosiect Comisiwn Artist
# Canllaw i athrawon

Ar lefel 7-9 y rhaglen hon, bydd y dysgwyr yn ategu'r themâu sylfaenol ennill a gwario arian, trwy archwilio dewisiadau. Bydd y dysgwyr yn ystyried y dewisiadau y gallant eu gwneud ynglŷn â sut maen nhw'n gwario ac yn ennill arian fel cynilo, rhoddi, gwahanol swyddi, ac ati. Mae'r prosiect hwn yn caniatáu i'r dysgwyr gael blas ar fenter fel ffordd o ennill arian, gan ysbrydoli'r dysgwyr â'r syniad bod ganddynt sgiliau gwerthfawr y gellir eu marchnata. Mae'r Prosiect Comisiwn Celf yn canolbwyntio ar y math symlaf o fusnes. Creu cynnyrch ffisegol i'w werthu. Gall y dysgwyr greu cynnyrch, heb fod angen adnoddau drud nac arbenigedd, trwy fanteisio ar rinwedd darluniau plant.

Cyflwynwyd gan:

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

## Paratoi

### Dull gwerthu

Yn gyntaf, bydd angen i chi benderfynu ar ffurf y prosiect, a fydd, yn y pen draw, yn cael ei phennu gan y broses o werthu'r gwaith celf. Mae nifer o opsiynau, ond efallai yr hoffech ddefnyddio un o'r 4 awgrym canlynol.

### Prosiect gwaith cartref

Rhowch strwythur a chyfarwyddyd y prosiect i'r dysgwyr ond caniatewch iddyn nhw ymgymryd â'r comisiynau gartref gyda ffrindiau a theulu.

### Ffurflenni archebu

Rhowch ffurflen i'r dysgwyr fynd adref â hi er mwyn i rieni ei llenwi, ac atodi taliad ar gyfer y comisiynau. Yna bydd y plant yn ymgymryd â'r gwaith celf yn yr ysgol.

### Ffair ysgol

Efallai yr hoffech sefydlu ardal artist mewn digwyddiad ysgol, lle y gall ymwelwyr eistedd i gael portread ohonynt.

### Gwerthiant cyhoeddus

Gan roi'r ystyriaeth angenrheidiol i ddiogelu priodol, gall y dysgwyr elwa'n enfawr ar werthiant celf cyhoeddus. Gellir gwneud hyn mewn partneriaeth ag oriel neu amgueddfa leol, neu drwy drawsnewid yr ysgol yn oriel nos dros dro. Gellir arddangos gwaith celf dysgwyr o bob rhan o'r ysgol mewn sioe gelf, a gall dysgwyr gynnig creu portreadau yn ystod y digwyddiad. Gall golygfa a chyffro digwyddiad o'r fath fod yn sefyllfa bwerus ac ysbrydoledig i ychwanegu at y prosiect. Gallai ychwanegu cystadleuaeth gelf gynnwys yr ysgol ehangach yn y prosiect.

### Diogelu

Mae'n angenrheidiol sicrhau bod y prosiect yn cael ei gynnal yn ddiogel, yn unol â pholisi diogelwch eich ysgol. Yn yr un modd, mae'n debygol y byddai angen asesiad risg o unrhyw weithgareddau oddi ar y safle.

### Elw

Ni ddylai'r prosiect arwain at unrhyw gostau sylweddol, felly byddai unrhyw incwm yn cael ei ystyried yn elw. Ar y lefel hon, y nod yw peidio â chyflwyno unrhyw themâu busnes cymhleth, ond yn hytrach archwilio cyfleoedd entrepreneuraidd. Os ydych wedi dewis prosiect gwaith cartref, ni fydd arian yn cael ei gyfnewid yn yr ysgol, fodd bynnag, os ydych yn defnyddio dull gwahanol, dylech ystyried sut y caiff unrhyw arian a enillir ei wario. Efallai yr hoffech ddychwelyd yr enillion i'r dysgwyr unigol, neu roi'r arian tuag at adnodd neu daith dosbarth. Os felly, byddai'n fuddiol anfon llythyr at y rhieni ar y dechrau, yn amlinellu'n glir y bwriad, ynghyd â'r rhesymeg addysgol ar gyfer y prosiect.

## Beth yw celf?

Dechreuwch y prosiect gyda chyflwyniad syml i gysyniad celf.

*Gall y celfyddydau fod yn gerddoriaeth, dawns neu unrhyw fynegiant creadigol arall. Ffordd o fynegi teimlad, syniad, meddwl neu hyd yn oed gwestiwn yw celf. Mae pob gwaith celf yn ceisio dweud rhywbeth, heb ei 'ddweud' mewn gwirionedd.*

*Mae celfyddydau gweledol yn waith celf sydd i fod i gael ei weld. Pethau fel paentiadau, darluniau, cerfluniau, ffotograffau neu hyd yn oed ffilmiau.*

*Mae pobl yn hoffi cael celf sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n dda neu sy'n edrych yn hardd. Mae 'celf hardd' yn edrych yn wahanol i wahanol bobl. Mae pawb yn hoffi gwahanol arddulliau celf.*

Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio gwahanol waith celf a dod o hyd i 3 phaentiad. Un maen nhw'n ei hoffi, un sy'n eu synnu ac yn un sy'n gwneud iddyn nhw deimlo rhywbeth.
Mae nifer o wefannau sy'n addas i blant ar gyfer archwilio celf, gan gynnwys **www.tate.org.uk/kids**.
Gall dysgwyr archwilio amrywiaeth eang o artistiaid trwy'r tab 'Explore'.
Bwriad y dasg yw synnu ac ysbrydoli'r dysgwyr trwy herio eu rhagdybiaethau o ran beth yw 'celf hardd'.

## Sut gallwch chi droi celf yn swydd?

Yn dilyn y gweithgaredd dysgu Gwisgo ar gyfer y Swydd, cyflwynwch swydd Artist.
Mae rhai pobl yn creu celf fel hobi. Mae rhai pobl yn troi'r hobi hwnnw yn swydd. Maen nhw'n ennill arian trwy greu celf a'i gwerthu.

Mae llawer o bobl yn hoffi prynu celf. Mae pobl yn prynu celf i wneud i'w cartrefi edrych yn dda neu i wneud iddyn nhw deimlo'n hapus.

Mae artistiaid yn gwerthu celf mewn dwy ffordd. Maen nhw naill ai'n ei chreu, ac yna'n ei gwerthu neu mae pobl yn eu talu i wneud rhywbeth y maen nhw eisiau'i gael. Yr enw ar hyn yw comisiwn. Efallai y bydd unigolyn yn gofyn i artist baentio llun o'i deulu, neu ei gi.
Mynnwch ddiddordeb y dysgwyr yng nghysyniad prynu celf drwy archwilio enghreifftiau yn eich cymuned leol. Er enghraifft, celf yn eich cartrefi, comisiynau canol y ddinas ac yn y blaen.

## Cyflwyno'r prosiect

Nawr eich bod wedi archwilio celf, artistiaid a chomisiynau, gobeithio bod y dysgwyr wedi cael tipyn o ysbrydoliaeth. Cyflwynwch y prosiect i'r dosbarth. Rydym ni'n mynd i fod yn artistiaid! Bydd pobl yn ein comisiynu ni i greu portreadau. Rhowch wybod i'r myfyrwyr sut a/neu ble y byddant yn gwerthu eu portreadau. Cyn i ni ddechrau, mae angen i ni ystyried yr atebion i'r cwestiynau hyn. Pa gelf fyddwn ni'n ei chynhyrchu? Sut byddwn ni'n dod o hyd i gwsmeriaid? Faint fyddwn ni'n ei godi am ein celf? Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r elw?

Dechreuwch gyda'r cwestiwn cyntaf. Lluniwch fap meddwl fel dosbarth i greu rhestr fer o gelf y gellid ei chynhyrchu, cyn cytuno ar fath a chyfrwng ar gyfer yr holl gomisiynau

Bydd y dull gwerthu, yn y pen draw, yn pennu paramedrau'r mathau o gelf a'r cyfrwng a fydd yn briodol. Er enghraifft, ni fyddai portreadau wedi'u paentio yn addas ar gyfer digwyddiad oriel oherwydd cost deunyddiau, y potensial i greu llanastr, a chwsmeriaid yn ceisio mynd â phaentiadau gwlyb adref. Arweiniwch y myfyrwyr at gonsensws ynghylch dewis priodol.

## Ymweliad artist

Pan fo'n bosibl, bydd ymweliad gan artist lleol neu ymweliad â stiwdio artist lleol, yn rhoi profiad dylanwadol i'r dysgwyr. Gall dysgwyr ddefnyddio'r ymweliad hwn i ddysgu sut mae artist yn defnyddio comisiynau, sut maen nhw'n denu cwsmeriaid a sut/pam y daethant yn artist. Efallai y bydd cyfle hefyd i gael gweithdy celf, i helpu'r dysgwyr i ddod o hyd i'w harddull artistig eu hunain.

## Marchnata

Sut byddwn ni'n dod o hyd i gwsmeriaid?

Gofynnwch i'r dosbarth ystyried yn gyntaf pam y byddai pobl yn prynu eu celf, er enghraifft:

- I addurno eu cartref
- Oherwydd ei bod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus
- I gefnogi'r ysgol
- Er mwyn annog y plant
- Fel cofrodd ar gyfer ffrindiau a theulu
- I'w hanfon at deulu, sy'n byw i ffwrdd

Nawr eich bod wedi creu rhestr o **gymhellion**, casglwch syniadau gan y dosbarth o ran sut i **ddenu** cwsmeriaid, er enghraifft:

- Posteri
- Taflenni
- Llythyron at rieni
- Y wasg – gall papurau newydd lleol ysgrifennu erthygl am ddigwyddiad o ddiddordeb lleol sydd ar y gweill

O wybod eich dull gwerthu, cytunwch ar lwybr addas i gyfathrebu â'ch **cwsmeriaid**.

Gofynnwch i'r dysgwyr lunio/drafftio eu llythyr, taflen ac ati i **annog** pobl i brynu eu celf. Defnyddiwch y **cymhellion** a nodwyd ganddynt.

Os ydych yn bwriadu gwerthu celf mewn digwyddiad, gofynnwch i'r dysgwyr greu arwyddion a phosteri ar gyfer eu bwrdd, gan gynnwys portreadau enghreifftiol. Gallai dysgwyr greu portreadau o'i gilydd i'w defnyddio at y diben hwn ac arbrofi â'u harddull.

## Derbyn comisiynau

Fel dosbarth, trafodwch bris addas ar gyfer eu comisiynau. Efallai y bydd angen i chi reoli disgwyliadau trwy dynnu sylw at werth y profiad yn hytrach nag enillion ariannol. Gan gyfeirio'n ôl at y cymhellion prynu, ni fyddai cymhellion sentimental neu ddyngarol yn denu pris uchel, ond yn hytrach gwerth rhodd, e.e. o dan £5.

Ewch ati i gynnwys y dysgwyr yn y broses o dderbyn comisiynau, boed hynny mewn digwyddiad, trwy ffurflen archebu neu fel gweithgaredd cartref. Er enghraifft, cefnogwch y dysgwyr i greu taflen gofrestru neu ffurflen archebu.

Trafodwch y penderfyniad ynghylch sut i wario'r elw a wneir o'r prosiect, pan fo hynny'n berthnasol. Gallech o bosibl gyflwyno cyfle dysgu ychwanegol trwy archwilio gwerth cyfuno arian er mwyn sicrhau mwy o fudd yn gyffredinol.

## Cynhyrchu gwaith celf

Bydd angen i chi gynllunio ar gyfer yr adnoddau angenrheidiol i greu'r portreadau yn y lleoliad rydych wedi'i ddewis. Er enghraifft, mewn digwyddiad, efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i îsls neu fyrddau sydd o faint addas i'r dysgwyr.

Bydd angen i chi hefyd gyfleu'n glir sut mae dysgwyr yn llofnodi eu gwaith celf, yn sgil yr ystyriaethau diogelu angenrheidiol. Er enghraifft, enwau cyntaf yn unig neu fabwysiadu symbol unigol.

## Casgliad

Dathlwch ddiwedd y prosiect trwy grynhoi cyflawniadau'r dysgwyr.

- Faint o arian a godwyd
- Sut y caiff yr arian ei wario
- Pa mor dda yr oedd eu marchnata wedi gweithio (nifer y cwsmeriaid)
- Unrhyw sylwadau yn y wasg ynglŷn â'r prosiect

Syniad da i gwblhau'r prosiect yw creu cynrychiolaeth weledol o'r hyn a ddysgwyd.

Bydd angen darn mawr o bapur poster gwyn a nifer o bennau neu bensiliau gwyrdd blaen mân.

Gyda'r papur poster ar ffurf portread, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn brawddegau byr o ymyl chwith y papur. Yna trowch y poster ar ffurf tirwedd. Mae'r brawddegau'n troi'n laswellt a phlanhigion yn tyfu o'r ddaear ac yn cynrychioli twf y dysgwyr. Ychwanegwch luniau o flodau, gloÿnnod byw, hadau dant y llew, a darnau ychwanegol o laswellt i'w haddurno.